| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 137 – Grŵp Llefaru dan 25 oed |
| | **Dŵr, Alan Llwyd** |

Plymiwch i dywyllwch y dŵr,
ewch i'w waelod a chwiliwch
am y fro a fu yno unwaith.

Ond 'does dim byd yma,
dim byd o'r hen fywyd a fu,
'does dim byd yma ond tywyllwch y dŵr,
holl bwysau'r dŵr lle bu siarad iaith,
ac mae'r gymuned a fu yma unwaith
yn nhywyllwch y dŵr.

Plymiwch i dywyllwch y dŵr,
a chwiliwch am y tai a fu yno
cyn i haid o estroniaid droi'r
gymuned yn gwm anial.

Ond 'does dim tai yma,
'does dim byd ond gweddillion o dai,
seiliau'r tai, a seleri tywyll
lle bu aelwydydd yn oleuedig
gan werthoedd a phawb yn gynhorthwy
i'w gilydd yn nannedd pob galar,
cyn i'r haid o estroniaid droi
yr hen bentre' gwâr yn bentyrrau o gerrig
yn nhywyllwch y dŵr.

| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 137 – Grŵp Llefaru dan 25 oed |
| | **Dŵr, Alan Llwyd** |

Plymiwch i dywyllwch y dŵr,
ewch i'w waelod a chwiliwch
am y fro a fu yno unwaith.

*Ond 'does dim byd yma,*
*dim byd o'r hen fywyd a fu,*
*'does dim byd yma ond tywyllwch y dŵr,*
*holl bwysau'r dŵr lle bu siarad iaith,*
*ac mae'r gymuned a fu yma unwaith*
*yn nhywyllwch y dŵr.*

Plymiwch i dywyllwch y dŵr,
a chwiliwch am y tai a fu yno
cyn i haid o estroniaid droi'r
gymuned yn gwm anial.

*Ond 'does dim tai yma,*
*'does dim byd ond gweddillion o dai,*
*seiliau'r tai, a seleri tywyll*
*lle bu aelwydydd yn oleuedig*
*gan werthoedd a phawb yn gynhorthwy*
*i'w gilydd yn nannedd pob galar,*
*cyn i'r haid o estroniaid droi*
*yr hen bentre' gwâr yn bentyrrau o gerrig*
*yn nhywyllwch y dŵr.*